| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | Hydref 16 2008 |
| **TEITL** | Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir |
| **PWRPAS** | I dderbyn arweiniad ar<br>1. Adroddiad ar y cyfnod ymgynghori statudol parthed dwy ysgol<br>2. Gofyn am arweiniad y Pwyllgor ar un ysgol arall |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr argymhellion a nodir yng Nghymal 6 |
| **AWDUR** | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Strategol Datblygu |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Liz Saville Roberts |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyhoeddwyd cynllun drafft i'r Cyngor yn ystod Hydref 2007 yn amlinellu argymhellion ar gyfer sefydlu trefniadaeth ysgolion newydd i Wynedd.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2007, rhoddwyd cymeradwyaeth gan y Cyngor i'r argymhelliad y dylid ymgymryd mewn cyfnod o ymgynghori ar y cynllun drafft. Cytunwyd hefyd y dylid ymgymryd â gwaith ymchwil ar ardrawiad ieithyddol posib y cynllun a chynnal astudiaeth bellach o fanteision ac anfanteision y model ffederal arfaethedig.

1.3 Ar 19 Mehefin 2008, derbyniwyd adroddiad ar yr uchod gan y Cyngor. Sefydlwyd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Cynradd i ystyried y camau nesaf.

1.4 Cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw y dylid bwrw ymlaen gyda chyfnod o ymgynghori statudol ar y bwriad i gau ysgolion Rhydyclafdy a Chroesor.

## 2 CYFNOD YMGYNGHORI STATUDOL YSGOL RHYDYCLAFDY

2.1 Trefnwyd cyfarfodydd ar wahân gydag aelodau staff ac un arall ar y cyd gyda llywodraethwyr a rhieni Rhydyclafdy (gyda chytundeb yr ysgol) ar 3 Gorffennaf 2008. Yn bresennol ar ran Cyngor Gwynedd oedd Arweinydd Portffolio Ysgolion, Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion, Uwch-Reolwr y Gwasanaeth Ysgolion, Swyddog Addysg Ardal Dwyfor a Chymhorthydd Prosiect Trefniadaeth Ysgolion.

2.2 Cyflwynwyd papur ymgynghorol i aelodau staff, llywodraethwyr a rhieni yn y cyfarfodydd hynny. Gellir gweld y papur perthnasol yn Atodiad B1.

2.3 Cofnodwyd y cyfarfodydd a rhannwyd y cofnodion gyda'r ysgol gan ofyn iddynt wirio'r cynnwys. Mae'r cofnodion i'w gweld yn Atodiadau B3 a B4.

2.4 Rhannwyd y papur ymgynghorol yn ei dro gydag ystod o gyrff ac unigolion. Mae rhestr lawn o'r sawl wnaeth dderbyn copi o'r ddogfen ymgynghorol yn dilyn yn Atodiad B2. Ymestynnwyd y cyfnod ymgynghori i sicrhau 10 wythnos lawn ers dyddiad y cyfarfod statudol.

2.5 Nid oes plant yn mynychu'r ysgol heddiw.

2.6 Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r papur ymgynghorol cyn y dyddiad cau ar 15 Medi 2008.

2.7 Mae'r amserlen ar gyfer y broses o hyn allan wedi'i amlinellu yn y papur ymgynghorol.

## 3 CYFNOD YMGYNGHORI STATUDOL YSGOL CROESOR

3.1 Trefnwyd cyfarfodydd ar wahân gydag aelodau staff, llywodraethwyr a rhieni Croesor ar 7 Gorffennaf 2008. Yn bresennol ar ran Cyngor Gwynedd oedd Arweinydd Portffolio Ysgolion, Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion, Uwch-Reolwr y Gwasanaeth Ysgolion, Swyddog Addysg Ardal Meirionnydd a Rheolwr Prosiect Trefniadaeth Ysgolion.

3.2 Cyflwynwyd papur ymgynghorol i aelodau staff, llywodraethwyr a rhieni yn y cyfarfodydd hynny. Gellir gweld y papur perthnasol yn Atodiad C1.

3.3 Cofnodwyd y cyfarfodydd a rhannwyd y cofnodion gyda'r ysgol gan ofyn iddynt wirio'r cynnwys. Ni dderbyniwyd sylwadau ar gynnwys y cofnodion erbyn cau'r cyfnod ymgynghori ar 15 Medi 2008. Mae'r cofnodion i'w gweld yn Atodiadau C3, C4 a C5.

3.4 Rhannwyd y papur ymgynghorol yn ei dro gydag ystod o gyrff ac unigolion. Mae rhestr lawn o'r sawl wnaeth dderbyn copi o'r ddogfen ymgynghorol yn dilyn yn Atodiad C2. Ymestynnwyd y cyfnod ymgynghori i sicrhau 10 wythnos lawn ers dyddiad y cyfarfod statudol.

3.5 Derbyniwyd ymatebion gan y canlynol:
- Corff Llywodraethol yr ysgol (2)
- Cadeirydd y Corff Llywodraethol (1)
- Cyn-ddisgyblion yr ysgol (5)
- Rhieni disgyblion a rhieni cyn-ddisgyblion yr ysgol (3)
- Cyngor Cymuned (1)
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (1)

3.6 Mae crynodeb o'r ymatebion yn dilyn yn Atodiad C6.

3.7 Mae'r amserlen ar gyfer y broses o hyn allan wedi'i amlinellu yn y papur ymgynghorol.

## 4 SEFYLLFA YSGOL LLAWRYBETWS

4.1 Ar gychwyn Tymor yr Hydref 2008, mae pryderon sylweddol wedi codi parthed cynaladwyedd Ysgol Llawrybetws yng ngwyneb lleihad sylweddol yn niferoedd disgyblion yr ysgol.

4.2 Wrth ymgynghori gyda'r ysgol yn ystod Mawrth 2008, datganwyd gwrthwynebiad staff a llywodraethwyr yr ysgol i'r argymhelliad i gau'r ysgol.

4.3 Roedd yr ysgol yn rhagweld y byddai tua 10 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ym Medi 2008. Ar ddechrau'r tymor hwn, dau o blant sydd yn mynychu'r ysgol.

4.4 Mae gan yr ysgol ar hyn o bryd Bennaeth llawn amser, un athrawes (0.7) sydd yn gweithredu gweddill yr wythnos fel cymhorthydd (0.3), un cymhorthydd un i un ar gyfer plentyn sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig, a hefyd cogydd a gofalwr rhan amser.

4.5 Nid yw'r ysgol yn rhagweld y bydd mwy o ddisgyblion yn dod i'r ysgol yn y tymor byr.

4.6 Cyllideb yr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon yw £104,474.

4.7 Cynhaliwyd trafodaethau gan yr Arweinydd Portffolio Ysgolion a'r Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion gyda staff a llywodraethwyr yr ysgol yn ystod mis Medi 2008.

4.8 Barn y Gwasanaeth Ysgolion yw bod yr ysgol bellach yn anghynaladwy.

4.9 Gyda chytundeb y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Cyngor, y bwriad yw symud i gyfnod o ymgynghori statudol ar unwaith ar yr argymhelliad i gau Ysgol Llawrybetws yn weithredol o 31 Awst 2009 neu 31 Rhagfyr 2009.

4.10 Bydd y cyfnod ymgynghori statudol yn adlewyrchu'r hyn sy'n ofynnol yn ôl canllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

## 5 PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

5.1 Derbyniwyd adroddiad ar yr uchod gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 25 Medi 2008.

5.2 Derbyniwyd yr adroddiad a'r argymhellion isod yn ddiwrthwynebiad.

## 6 ARGYMHELLION

6.1 Cytuno i'r bwriad i gyhoeddi rhybuddion statudol i gau Ysgol Rhydyclafdy erbyn 3 Ebrill 2009.

6.2 Cytuno i'r bwriad i gyhoeddi rhybuddion statudol i gau Ysgol Croesor erbyn 31 Awst 2009.

6.3 Cytuno i'r bwriad i gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y bwriad i gau Ysgol Llawrybetws erbyn 31 Awst 2009 neu 31 Rhagfyr 2009.

**Iwan T. Jones**
**Cyfarwyddwr Strategol Datblygu**
**ITJ/SW/02.10.08**

**ATODIAD B1**

## YMGYNGHORI AR Y CYNNIG I GAU YSGOL RHYDYCLAFDY ERBYN 31AIN AWST 2009

## PAPUR YMGYNGHORI

### Y Cynnig

1. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw trafod y cynnig i gau Ysgol Rhydyclafdy. Yn ôl yr amserlen sydd wedi ei adnabod, bydd yr ysgol yn cau - os bydd cytundeb - erbyn 31 Awst 2009.
2. Cynhelir yr ymgynghoriad gyda rhieni, llywodraethwyr a staff Ysgol Rhydyclafdy yn ogystal â'r rhai eraill a gymeradwyir gan ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae croeso hefyd i unrhyw un arall sydd yn dymuno cyflwyno sylwadau i wneud hynny.
3. Cynhelir y cyfnod ymgynghori rhwng 30 Mehefin 2008 a 15 o Fedi 2008. Bydd adroddiad ar ddeilliant yr ymgynghoriad yn mynd gerbron y Cyngor ar 16 Hydref 2008.

### Beth fydd goblygiadau'r cynnig hwn?

4. Bydd Ysgol Rhydyclafdy yn cau.
5. Mae adeilad yr ysgol a'r tir o'i hamgylch yn eiddo i'r Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor ystyried anghenion y gymuned ochr yn ochr â gofynion y Cynllun Rheoli Asedau drafft. Argymhellwyd gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar 5 Mehefin 2008 y dylai Pwyllgor Ardal Dwyfor gael cyfle i drafod ôl-ddefnydd y safle. Petai penderfyniad i werthu'r safle, bydd unrhyw elw yn cael ei ail-fuddsoddi o fewn cyfundrefn addysg gynradd y sir.
6. Bydd disgyblion o fewn dalgylch presennol Rhydyclafdy yn derbyn cludiant yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor ddynodi ym mha ddalgylch y lleolir y dalgylch presennol i bwrpas cludiant i'r dyfodol. Bydd hyn yn elfen benodol o'r ymgynghori presennol.

### Y rhesymau o blaid y cynnig.

Mae niferoedd disgyblion Ysgol Rhydyclafdy wedi bod yn isel ers rhai blynyddoedd ac wedi profi lleihad sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

| | |
|---|---|
| Medi 1975 | 27 |
| Medi 1985 | 27 |
| Medi 1995 | 31 |
| Medi 2005 | 20 |
| Medi 2007 | 4 |

- Mae dau o'r pedwar plentyn sydd yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd ym Mlwyddyn 6 a byddant wedi gadael yr ysgol erbyn Medi 2008. Mae rhieni'r ddau sy'n weddill wedi cyflwyno cais ffurfiol i'r Awdurdod Addysg am lefydd i'w plant yn Ysgol Llanbedrog o Fedi 2008. Mae'r ceisiadau wedi eu caniatáu a'r trefniadau perthnasol wedi eu cadarnhau. Rhagwelir felly na fydd plant yn Ysgol Rhydyclafdy ym Medi 2008.
- Cyllideb ddatganoledig yr ysgol ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2007-8 oedd £103,278
- Mae lle ar gyfer 42 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae digon o le yn yr ysgolion cyfagos i gynnig llefydd i blant y dalgylch.

7. Bydd yr arbediad refeniw blynyddol o gau'r ysgol yn cael ei ail-fuddsoddi o fewn y gyfundrefn addysg, yn bennaf er mwyn lleihau maint dosbarthiadau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir.

8. Ni fydd amhariaeth ar addysg plant gan na fydd - yn ôl rhagolygon yr ysgol - blant yn yr ysgol ym Medi 2008.

**Beth yw'r anfanteision o gau Ysgol Rhydyclafdy?**

9. Mae'r ysgol yn adnodd cymunedol mewn cymuned wledig, a bydd cau'r ysgol yn golygu colli'r adnodd honno.
10. Bydd goblygiadau staffio. Ar hyn o bryd mae pennaeth llawn amser, un athrawes rhan amser a staff cefnogol. Bydd ymgynghori penodol gyda'r staff a'u cynrychiolwyr undebol fel rhan o'r ymgynghoriad presennol.

**Camau nesaf**

11. Cynhelir cyfarfod ymgynghori statudol gyda staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol ar 3ydd Gorffennaf 2008 ac fe fydd ymgynghoriad ffurfiol yn cychwyn â'r rhai a gynhwysir yng nghanllawiau'r Cynulliad yn dilyn y cyfarfodydd hynny. Bydd croeso i unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn cyfrannu eu sylwadau wneud hynny cyn 15fed o Fedi 2008. Y bwriad yw cyflwyno deilliant y cyfnod ymgynghori at sylw'r Cyngor llawn ar 16eg o Hydref 2008.
12. Petai'r Cyngor yn cadarnhau'r cynnig i gau Ysgol Rhydyclafdy cyhoeddir rhybudd statudol i gau, ac fe ddosberthir copïau i'r ysgol a'r llyfrgell gyhoeddus leol. Cyhoeddir y rhybuddion hefyd yn y wasg leol. Bydd y rhybudd yn nodi'r hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig o fewn deufis i ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd. Os bydd gwrthwynebiadau, trosglwyddir y mater i Lywodraeth y Cynulliad. Bydd y Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau, ymateb yr awdurdod i'r gwrthwynebiadau hynny, ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r cais cyn penderfynu a ddylid cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig.
13. Mae'r amserlen ar gyfer y broses yn dilyn:

| | |
|---|---|
| Gorffennaf 2008 | Cychwyn ymgynghori statudol sy'n cynnwys Cyfarfodydd gyda staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol. |
| 16 Hydref 2008 | Penderfyniad y Cyngor llawn ar y cynnig<br><br>Os oes penderfyniad i gau'r ysgol, cyhoeddir rhybuddion statudol yn syth gan ganiatáu cyfnod o ddeufis er mwyn cyflwyno gwrthwynebiadau |
| 23 Rhagfyr 2008 | Os nag oes gwrthwynebiadau i'r cynnig, bydd y Cyngor yn cadarnhau'r cynnig i gau Ysgol Rhydyclafdy. Os oes gwrthwynebiadau, bydd rhaid cyfeirio'r cynnig at sylw Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Llywodraeth fel arfer yn gofyn am gyfnod o tua 3 mis o ddyddiad cau'r cyfnod cyflwyno gwrthwynebiadau er mwyn gwneud penderfyniad. Golyga hyn y bydd Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud penderfyniad terfynol erbyn Pasg 2009.<br><br>Os nad oes gwrthwynebiadau, gallai'r Cyngor benderfynu bwrw ymlaen i gau Ysgol Rhydyclafdy yn weithredol o ddiwedd Tymor y Gwanwyn 2009. Os oes gwrthwynebiadau, y cynharaf y gellir cau'r ysgol yw 31 Awst 2009. |

**Staffio**

14. Fel y nodwyd eisoes bwriedir cynnal trafodaethau manwl gyda'r staff sydd yn gweithio yn Ysgol Rhydyclafdy ar hyn o bryd mewn perthynas â'r opsiynau sy'n bodoli ar eu cyfer.

**Sut gallwch chi ymateb?**

15. Mae gan y Cyngor dudalennau a gwybodaeth gyffredinol am y broses o ystyried trefniadaeth ysgolion y sir hyd yn hyn ar ei wefan.

16. Mae croeso i chi gynnig eich sylwadau ysgrifenedig a'u hanfon at:
Mr Iwan Roberts
Uwch-Reolwr Gwasanaeth Ysgolion
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Sir
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

    Neu gallwch e-bostio trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

17. Mae'n rhaid i unrhyw sylwadau gyrraedd y Cyngor erbyn dydd Llun, 15fed o Fedi 2008

    Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn ffurf arall, cysylltwch â Seimon Williams ar 01286 679247.

**ATODIAD B2**

## Rhestr o'r sawl wnaeth dderbyn y ddogfen ymgynghorol

Rhieni disgyblion Ysgol Rhydyclafdy

Pennaeth Ysgol Rhydyclafdy

Penaethiaid ysgolion cyfagos ardal Glan y Môr a Botwnnog

Penaethiaid ysgolion uwchradd yr ardal

Cynghorydd lleol

Cyngor Cymuned

**ATODIAD B3**

**CYFADRAN DATBLYGU**

**Cyfarfod Statudol gydag Ysgol Rhydyclafdy**
**Ysgol Rhydyclafdy**
**3 Gorffennaf 2008 am 17:00**

**CYFARFOD STAFF**
***Cofnodion***

**1. Croeso**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi R Jones, Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion.

**2. Cyd-destun**
Rhoddwyd cyflwyniad gan Iwan Roberts ac esboniwyd fod cyfle i staff holi unrhyw gwestiynau heno ond os oedd pryderon personol y byddai cyfle i drafod y rhain mewn cyfarfodydd unigol ymhellach ymlaen.

**3. Trafodaeth**

a) <u>Materion Staff</u>

Nodwyd mai pryderon unigol sydd gan y staff a fyddai'n fwy perthnasol i'w trafod yn y cyfarfodydd personol.

IR - Cyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i sicrhau a helpu sefyllfa pawb. Bydd trefniant yn cael ei wneud i gyfarfod a phawb yn unigol. Efallai y byddai o fydd i'r staff gymryd cyngor allanol gan undebau a.y.b.

A oes gwahaniaeth os yw staff ar gontract blynyddol etc yn hytrach na pharhaol?

Yn ddibynnol ar hyd y gwasanaeth. Bydd cymorth hefyd i'w gael i'r staff dros dro.

DR yn nodi ei bod yn amlwg yn annheg i drafod sefyllfaoedd unigol yn y cyfarfod hwn, bydd cyfle i drafod unrhyw bryderon personol yn y cyfarfodydd unigol.

Cytunwyd i drefnu'r cyfarfodydd unigol gydag IR ar y 10fed. Gan fod Sioned ddim ond yn gweithio pnawniau cytunwyd iddi hi fynd yn gyntaf, hefyd angen cysylltu â Clerc y Llywodraethwyr - dymuniad ganddi i beidio parhau fel clerc.

Materion ynglŷn â dyfodol yr adeilad, dalgylchoedd a thrafnidiaeth

Rhydyclafdy yn nalgylch Glan y Môr. Ar ffin dalgylchoedd Llanbedrog a Phentreuchaf yma, toes dim tueddiad penodol ar ba ysgol mae'r plant yn dueddol o fynd. H.y. nid yw plant o un ochr y dalgylch yn dueddol o fynd i'r ysgol sydd ochr yna i'r dalgylch.

Y Llywodraethwyr yn fwy tebygol o fod gyda sylwadau ynglŷn ag ôl-ddefnydd yr adeilad, dalgylchoedd a thrafnidiaeth.

**4. Cloi**
Diolchwyd i bawb am ddod gan DRJ.

**ATODIAD B4**

**CYFADRAN DATBLYGU**

**Cyfarfod Statudol gydag Ysgol Rhydyclafdy**
**Ysgol Rhydyclafdy**
**3 Gorffennaf 2008 am 17:45**

**CYFARFOD LLYWODRAETHWYR A RHIENI**
***Cofnodion***

**1. Croeso**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dewi R Jones, Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion.

**2. Cyd-destun**

Rhoddwyd cyflwyniad gan Iwan Roberts.

Nodwyd fod cyfarfod staff eisoes wedi ei gynnal ac y bydd cyfarfodydd unigol gyda staff wythnos nesaf. Penderfynu oherwydd sefyllfa Ysgol Rhydyclafdy nad oedd angen cynnal cyfarfodydd llywodraethwyr a rhieni ar wahân.

Llywodraethwyr/Rhieni wedi derbyn fod yr ysgol am gau, teimlad nad y Cyngor oedd yn cau'r ysgol ond yn hytrach y diffyg plant.

**3. Trafodaeth**

a) <u>Ôl-ddefnydd yr adeilad</u>

Cyfarfod bach anffurfiol wedi ei gynnal eisoes i drafod dyfodol yr adeilad. Bwriad o ddanfon llythyr drwy ddrysau'r pentref i wahodd pentrefwyr i sefydlu grŵp i drafod ôl-ddefnydd yr adeilad.

Liz Saville Roberts yn tynnu sylw at oblygiadau ar unrhyw bwyllgor lleol. Byddai cyfrifoldeb cynnal a chadw'r adeilad yn disgyn ar y pwyllgor hwnnw. Angen cyngor ac arweiniad i'r grŵp o ran hyn.

Nid oes trafodaeth wedi bod rhwng y grŵp/pwyllgor a Chyngor Cymuned Buan ynglŷn â dyfodol yr adeilad.
Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp/pwyllgor fwydo'n ôl i'r Cyngor Cymuned.

Pe byddai'r adeilad yn cael ei drosglwyddo i'r gymuned yna cyfrifoldeb y gymuned fyddai ei gynnal a'i gadw.

Nid oes canolfan arall yn y pentref, dim siop, dim ond capel.

Aelodau hŷn y pentref yn bryderus o ddefnydd y cae, cof gan rai bod rhyw fath o amod ar y cae chwarae ei fod wedi ei roi ar yr amod ei fod yno i'w ddefnyddio gan blant y pentref gyda'r nos. Angen edrych i mewn i weithredoedd y cae. Hwn yw'r unig gae chwarae yn y pentref.

Bydd rhaid sefydlu trefniadau cynnal a chadw tymor-byr i'r adeilad.

b) Cludiant

Gofynnwyd beth fyddai'r trefniant i'r ddau ddisgybl sydd yn symud i Lanbedrog ym Medi. Nid yw un rhiant yn gallu dreifio ac mae'r disgybl arall yn all-ddalgylch i Rydyclafdy. Fel arfer cyfrifoldeb y rhieni yw cludo eu plant os ydynt yn gwneud y penderfyniad i'w symud i ysgol all-dalgylch. Byddai'r Cyngor yn agored i ystyried cludiant i'r ddau oherwydd amgylchiadau arbennig.

c) Dalgylchoedd

Nid oes penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â ble fydd ffiniau'r dalgylchoedd eto. Byddai angen gosod polisi pendant i'r dyfodol.

Dangoswyd pryder ynglŷn â dalgylch uwchradd, mae Rhydyclafdy ar hyn o bryd yn nalgylch Glan y Môr ond mae dewis yn Llanbedrog i fynd i Glan y Môr neu i Fotwnnog. Tueddiad diweddar yn Llanbedrog i fynd i Fotwnnog. Mae Pentreuchaf yn nalgylch Glan y Môr.

O'r plant sydd eisoes wedi symud ysgol nid oes patrwm pendant o ba ysgol yw eu dewis h.y. nid yw plant o un ochr y pentref bob tro yn mynd i'r ysgol sydd ochr yna o'r pentref. Mae Rhydyclafdy yn debycach i Bentreuchaf o ran ardal.

ch) Dyfodol y Corff Llywodraethu

Holwyd beth fyddai dyfodol y corff llywodraethu o fis Medi gan na fydd cynrychiolaeth pennaeth, rhieni a.y.b.

Byddai posibilrwydd i'r Cyngor gymryd drosodd gan y corff llywodraethu.

## 4. Cloi

Diolchwyd i bawb am ddod gan Dewi R Jones.

**ATODIAD C1**

## YMGYNGHORI AR Y CYNNIG I GAU YSGOL CROESOR ERBYN 31AIN AWST 2009

## PAPUR YMGYNGHORI

### Y Cynnig

1. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw trafod y cynnig i gau Ysgol Croesor. Yn ôl yr amserlen sydd wedi ei adnabod, bydd yr ysgol yn cau - os bydd cytundeb - erbyn 31ain Awst 2009.
2. Cynhelir yr ymgynghoriad gyda rhieni, llywodraethwyr a staff Ysgol Croesor yn ogystal â'r rhai eraill a gymeradwyir gan ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae croeso hefyd i unrhyw un arall sydd yn dymuno cyflwyno sylwadau i wneud hynny.
3. Cynhelir y cyfnod ymgynghori rhwng 30ain Mehefin 2008 a 15ed Medi 2008. Bydd adroddiad ar ddeilliant yr ymgynghoriad yn mynd gerbron y Cyngor ar 16eg Hydref 2008.

### Beth fydd goblygiadau'r cynnig hwn?

4. Bydd Ysgol Croesor yn cau.
5. Mae adeilad yr ysgol a'r tir o'i hamgylch yn eiddo i'r Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor ystyried anghenion y gymuned ochr yn ochr â gofynion y Cynllun Rheoli Asedau.
6. Argymhellwyd gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar 5ed Mehefin 2008 y dylai Pwyllgor Ardal Meirionnydd drafod ôl-ddefnydd y safle. Petai penderfyniad i werthu'r safle, bydd unrhyw elw yn cael ei ail-fuddsoddi o fewn cyfundrefn addysg gynradd y sir.
7. Bydd y plant sydd yn Ysgol Croesor yn cael cynnig lle yn Ysgol Y Garreg, Llanfrothen neu mewn ysgol arall os mai hynny yw dewis eu rhieni. Mae lle digonol yn Ysgol y Garreg ar gyfer y plant.
8. Pe byddai Ysgol Croesor yn cau bydd dalgylch yr ysgol yn dod yn rhan o ddalgylch Ysgol Y Garreg. Bydd disgyblion o fewn dalgylch presennol Ysgol Croesor yn derbyn cludiant i ysgol Y Garreg yn unol â pholisi cludiant y Cyngor. Mae'r polisi presennol yn caniatáu cludiant i'r ysgol dalgylch os yw cartref y plentyn dros filltir a hanner o'r ysgol honno ar gyfer plant dan 8 oed, a dros ddwy filltir os yw'r plentyn rhwng 8-11 oed.

### Y rhesymau o blaid y cynnig.

Mae niferoedd disgyblion Ysgol Croesor wedi bod yn isel ers rhai blynyddoedd ac wedi profi lleihad sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

| | |
|---|---|
| Medi 1975 | 19 |
| Medi 1985 | 16 |
| Medi 1995 | 23 |
| Medi 2005 | 14 |
| Medi 2007 | 9 |

- Yn Medi 2007 roedd 9 o blant yn mynychu Ysgol Croesor. Erbyn Pasg 2008 roedd y nifer wedi lleihau i 6 ac mae rhagolygon yr ysgol yn nodi na fydd y nifer ym Medi 2008 yn uwch na 4.
- Cyllideb ddatganoledig yr ysgol ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2008-9 yw £103,015.

- Mae'r Awdurdod Addysg o'r farn nad yw niferoedd y plant yn Ysgol Croesor bellach yn hyfyw. Mae cost addysgu'r plant fydd yn yr ysgol yn sylweddol uwch na'r gost gyfartalog yng ngweddill ysgolion cynradd y Sir. Ar sail 4 plentyn bydd y gost dros £25,000 o'i gymharu â chost gyfartalog gynradd Gwynedd o lai na £4,000 y pen.
- Ers ymddeoliad pennaeth blaenorol Ysgol Croesor yn haf 2007 mae pennaeth Ysgol y Garreg â gofal dros y ddwy ysgol.
- Mae Ysgol Croesor eisoes yn cydweithio'n agos ag Ysgol y Garreg ac mae plant Ysgol Croesor yn treulio cyfnodau o'r wythnos yn Ysgol y Garreg gan ymestyn eu cyfleoedd a chyfoethogi eu profiadau. Byddai trosglwyddiad y disgyblion i Ysgol y Garreg yn fodd i ddatblygu'r manteision yma ymhellach.
- Mae lle ar gyfer 33 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae lle yn Ysgol y Garreg ar gyfer 49 o ddisgyblion a 15 oedd yn mynychu'r ysgol yn Ionawr 2008. Mae digon o le yn Ysgol y Garreg i gynnig llefydd i'r plant sydd bellach yn mynychu Ysgol Croesor.

9. Bydd yr arbediad refeniw blynyddol o gau'r ysgol yn cael ei ail-fuddsoddi o fewn y gyfundrefn addysg, yn bennaf er mwyn lleihau maint dosbarthiadau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir.
10. Mae adeilad a thir yr ysgol yn eiddo i'r Cyngor. Petai penderfyniad i werthu'r safle - yn amodol ar drafodaethau'r Pwyllgor Ardal a phenderfyniad y Cyngor yn unol â Chynllun Rheoli Asedau'r Cyngor - y bwriad yw ail-fuddsoddi'r derbynion cyfalaf yn ôl i'r gyfundrefn addysg.

### Beth yw'r anfanteision o gau Ysgol Croesor?

11. Mae'r ysgol yn adnodd cymunedol mewn cymuned wledig, a bydd cau'r ysgol yn golygu colli'r adnodd honno.
12. Bydd goblygiadau staffio. Ar hyn o bryd mae'r ysgol wedi cael ei chlystyru ag Ysgol Y Garreg gyda phennaeth yr ysgol honno mewn gofal. Mae athrawes llawn amser yn gweithredu fel pennaeth safle ac mae yn yr ysgol hefyd un athrawes rhan amser, yn ogystal â staff cefnogol. Bydd ymgynghori penodol gyda'r staff a'u cynrychiolwyr undebol fel rhan o'r ymgynghoriad presennol.

### Camau nesaf

13. Cynhelir cyfarfod ymgynghori statudol gyda staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol ar 7fed Gorffennaf 2008 ac fe fydd ymgynghoriad ffurfiol yn cychwyn â'r rhai a gynhwysir yng nghanllawiau'r Cynulliad yn dilyn y cyfarfodydd hynny. Bydd croeso i unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn cyfrannu eu sylwadau wneud hynny cyn 15fed o Fedi 2008. Y bwriad yw cyflwyno deilliant y cyfnod ymgynghori at sylw'r Cyngor llawn ar 16eg o Hydref 2008.
14. Petai'r Cyngor yn penderfynu symud ymlaen i gau Ysgol Croesor bydd y Cyngor yn cyhoeddi rhybudd statudol i gau, ac fe ddosberthir copïau i'r ysgol a'r llyfrgell gyhoeddus leol. Cyhoeddir y rhybuddion hefyd yn y wasg leol. Bydd y rhybudd yn nodi'r hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig o fewn deufis i ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd. Os bydd gwrthwynebiadau, trosglwyddir y mater i Lywodraeth y Cynulliad. Bydd y Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau, ymateb yr awdurdod i'r gwrthwynebiadau hynny, ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r cais cyn penderfynu p'un ai dylid cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynnig.
15. Mae'r amserlen ddrafft ar gyfer y broses yn dilyn:

| | |
|---|---|
| Gorffennaf 2008 | Cyfarfodydd gyda staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol. |
| 16 Hydref 2008 | Penderfyniad y Cyngor llawn ar y cynnig.<br><br>Os oes penderfyniad i gau'r ysgol, cyhoeddir rhybuddion statudol yn syth gan ganiatáu cyfnod o ddeufis er mwyn cyflwyno gwrthwynebiadau. |
| 23 Rhagfyr 2008 | Os nag oes gwrthwynebiadau i'r cynnig, bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen i gau Ysgol Croesor. Os oes gwrthwynebiadau, bydd rhaid cyfeirio'r cynnig at sylw Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Llywodraeth fel arfer yn gofyn am gyfnod o tua 3 mis o ddyddiad cau'r cyfnod cyflwyno gwrthwynebiadau er mwyn gwneud penderfyniad. Golyga hyn y bydd Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud penderfyniad terfynol erbyn Pasg 2009.<br><br>Os nag oes gwrthwynebiadau, gallai'r Cyngor benderfynu bwrw ymlaen i gau Ysgol Croesor yn weithredol o ddiwedd Tymor y Gwanwyn 2009. Os oes gwrthwynebiadau, y cynharaf y gellir cau'r ysgol yw 31ain Awst 2009. |

**Staffio**

16. Fel y nodwyd eisoes bwriedir cynnal trafodaethau manwl gyda'r staff sydd yn gweithio yn Ysgol Croesor ar hyn o bryd mewn perthynas â'r opsiynau sy'n bodoli ar eu cyfer.

**Sut gallwch chi ymateb?**

17. Mae gan y Cyngor dudalennau a gwybodaeth cyffredinol am y broses o ystyried trefniadaeth ysgolion y sir hyd yn hyn ar ei wefan.

18. Mae croeso i chi gynnig eich sylwadau ysgrifenedig a'u hanfon at:
Mr Iwan Roberts
Uwch-Reolwr Gwasanaeth Ysgolion
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Sir
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Neu gallwch e-bostio trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

19. Mae'n rhaid i unrhyw sylwadau gyrraedd y Cyngor erbyn dydd Llun, 15fed o Fedi 2008

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn ffurf arall, cysylltwch â Seimon Williams ar 01286 679247.

**ATODIAD C2**

## Rhestr o'r sawl wnaeth dderbyn y ddogfen ymgynghorol

Pennaeth Ysgolion Croesor a'r Garreg, Llanfrothen

Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Croesor

Rhieni holl blant oedd yn yr ysgol yng Ngorffennaf 2008

Cyngor Cymuned Llanfrothen

Cynghorydd lleol

Ysgolion Cynradd Dalgylch Ardudwy ac Ysgol Uwchradd Ardudwy

**ATODIAD C3**

**CYFADRAN DATBLYGU**

**Cyfarfod Statudol gydag Ysgol Croesor**
**Ysgol Croesor**
**7 Gorffennaf 2008 am 17:30**

**CYFARFOD STAFF**
***Cofnodion***

**1. Croeso**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion.

**2. Cyd-destun**

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion mae cyfarfod ymgynghori statudol i rieni oedd hyn a chroesawyd sylwadau fyddai'n cael eu cofnodi.

**3. Y Papur Ymgynghori**

Cyflwynodd Uwch-Reolwr y Gwasanaeth Ysgolion bapur yn ymgynghorol oedd yn amlinellu bwriad y Cyngor, manteision ac anfanteision y cynnig, ynghyd ag esboniad o'r broses ymgynghorol o hyn allan.

Esboniwyd fod y cyngor ar 19/06 wedi cytuno i symud i gyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig o gau ysgol ac y byddai'r Cyngor yn trafod y cynnig terfynol yn Hydref 2008. Os gwireddir y cynnig, bydd yr ysgol yn cau erbyn 31/08/09. Yn y cyfamser, bydd cyfnod o ymgynghori ac y byddai croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i fynegi barn, gan gynnwys ysgolion cyfagos, cyngor cymuned ac eraill. Petai'r Cyngor yn penderfynu cau'r ysgol, bydd y Cyngor yn cyhoeddi rhybuddion statudol ac yn cynnig cyfnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau. Os oes gwrthwynebiadau, cyfeirir y mater ar y Gweinidog Addysg.

Nodwyd mai materion staffio mae'n debyg fydd un o brif ystyriaethau cyfarfod hon.

**4. Trafodaeth**

*a)* *Rhagolygon Medi 2008.*
Cadarnhawyd gan yr ysgol eu bod yn disgwyl y byddai o leiaf un plentyn yn mynychu'r ysgol ym Medi 2008. Roedd dealltwriaeth y byddai un plentyn arall hefyd yn debygol o fynychu. Bydd un o'r plant yn y flwyddyn derbyn, a'r llall ym mlwyddyn 5. Mae'r ddau yn byw o fewn dalgylch ysgol Croesor.

*b)* *Cludiant disgyblion dalgylch Croesor*
Eglurwyd y byddai angen i'r Cyngor ail-lunio ffiniau dalgylchoedd ysgolion cynradd, ac y byddai'n rhesymol ystyried y byddai dalgylch Croesor yn gorwedd o fewn dalgylch Llanfrothen petai ysgol Croesor yn cau.

Cwestiynwyd cyfreithlondeb anfon plant dan 5 oed ar dacsis i'r ysgol. Atebwyd trwy ddweud bod hyn yn gyfreithlon, bod plant Croesor eisoes yn teithio i ysgol y Garreg, Llanfrothen, mewn tacsis yn rheolaidd, ac felly bod yr arfer yn dderbyniol.

Nid oes rheidrwydd darparu cludiant i blant Meithrin ond gall hyn ddigwydd os oes lle ar y bws neu dacsi.

*c)* *Materion Staffio*

i) Nodwyd bod cyfle yn y cyfarfod i drafod materion staffio cyffredinol gan dderbyn y byddai materion penodol personol fyddai angen trafodaeth hefyd. Ymrwymodd Uwch-Reolwr y Gwasanaeth Ysgolion felly y byddai'n ail-ymweld â'r ysgol yn ystod y dyddiau nesaf i drafod materion personol gyda staff unigol.

ii) Mynegwyd pryder bod nifer o aelodau staff yn ifanc. Cytunwyd y byddai angen trafod fesul achos. Nodwyd mai'r lefel staffio ar hyn o bryd oedd 1 ½ athrawes a 2 gymhorthydd a hefyd gofalwraig.

iii) Eglurwyd bod cyfrifoldeb dros staff darparu yn gorwedd tu allan i'r Gwasanaeth Ysgolion ond rhoddwyd sicrwydd y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnal swyddi i bawb. Nid oes cegin yn yr ysgol ac mae'r clwstwr yn trefnu cludo bwyd o Ysgol y Garreg i Groesor.

iv) Roedd rhagolygon yn awgrymu y byddai dau blentyn yn yr ysgol ym Medi 2008, a gwahaniaeth oedran sylweddol rhyngddynt. Cytunwyd y byddai angen cynnal trafodaethau bellach ar y ffordd orau o ddarparu addysg ar eu cyfer.

*ch)* *Materion rheolaethol*

Trafodwyd y trefniant presennol oedd yn caniatáu i blant Croesor gael eu cludo ar dacsis i ysgol y Garreg am 3 prynhawn yr wythnos ar adegau (ac o leiaf dwywaith yr wythnos yn rheolaidd)

Nodwyd nad oedd y clwstwr eto wedi cytuno sut i drefnu materion rheolaethol ar gyfer Medi 2008 ond bod trafodaethau'n parhau.

*d)* *Effaith yr ymgynghori ar ad-drefnu ysgolion*

Mynegwyd barn fod yr ymgynghori dros y blynyddoedd diwethaf wedi dychryn rhieni i gymryd plant o'r ysgol. Roedd 11 o blant oedd yn byw o fewn dalgylch Croesor yn derbyn addysg tu allan i'r dalgylch, a dim ond un oedd wedi symud i'r Garreg. Nodwyd bod saith o'r 11 wedi mynychu ysgol Croesor ond nad oedd un ohonynt wedi trosglwyddo i Ysgol y Garreg. Y farn oedd bod y cynllun ymgynghorol - oedd yn argymell cau'r ddwy ysgol a throsglwyddo plant i Benrhyndeudraeth - wedi gweithio yn erbyn Y Garreg hefyd.

## 5. Cloi

Diolchodd Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion i'r staff a'u hannog i drafod sut i ddarparu'r addysg orau ar gyfer y ddau blentyn fyddai'n mynychu'r ysgol ym Medi 2008.

**ATODIAD C4**

**CYFADRAN DATBLYGU**

**Cyfarfod Statudol gydag Ysgol Croesor**
**Ysgol Croesor**
**7 Gorffennaf 2008 am 18:15**

**CYFARFOD LLYWODRAETHWYR**
***Cofnodion***

**1. Croeso**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion.

**2. Cyd-destun**

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion mae cyfarfod ymgynghori statudol i lywodraethwyr oedd hyn a chroesawyd sylwadau fyddai'n cael eu cofnodi.

Nododd y swyddog fod llythyr wedi'i adael ar gyfer y Cyngor gan gadeirydd y Corff Llywodraethol (oedd yn absennol o'r cyfarfod am resymau personol). Cytunwyd y byddai'r swyddog yn darllen y llythyr i'r cyfarfod petai llywodraethwyr yn dymuno hynny.

Ymysg y pwyntiau a godwyd oedd y canlynol:

- Nodwyd pryder am yr 11 o blant sydd wedi gadael Croesor ers Medi 07 oherwydd ansicrwydd, gan gadarnhau mai dim ond un sydd wedi mynd i Ysgol y Garreg oherwydd yn ansicrwydd yno.
- Bod cyflwr yr adeilad yn dda ac yn addas ar gyfer cyfnod sylfaen.
- Bod yr ysgol yn gyfoethog o adnoddau a staff da.
- Bod y Capel yn dal ar agor
- Ganwyd llawer o blant yn yr ardal yn ddiweddar.
- Yr ysgol yn galon y pentref
- O'i chadw ar agor gall yr ysgol ffynnu eto.

Bu cytundeb ymysg llywodraethwyr mai'r trafodaethau dros ail-drefnu ysgolion cynradd sydd wrth wraidd y ffaith bod nifer o blant wedi gadael yr ysgol yn ddiweddar. Llywodraethwyr yn awyddus i ategu llythyr y Cadeirydd.

**3. Trafodaeth**

*a.* *Dyfodol Ysgol y Garreg*
Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai ysgol y Garreg yn cau er mwyn tawelu pryderon yn y dalgylch. Atebodd y Deilydd Portffolio Ysgolion ar Gyngor Gwynedd bod gweithgor wedi'i sefydlu i edrych ar y maes eto. Cadarnhawyd fod yr hen gynllun wedi'i wrthod gan y Cyngor, ond nid oedd modd rhoi addewid na fyddai newid pellach i'r dyfodol.

*b.* *Meini prawf*
Rhoddwyd sicrwydd y byddai meini prawf clir a chadarn yn rhan o unrhyw gynigion i gau ysgolion.

*c.* *Effaith ar y gymuned*

i) Teuluoedd ifanc

Nodwyd pryder y byddai cau'r ysgol yn ei gwneud hi'n anodd denu pobl ifanc i fyw i'r pentref ac i gadw pobl ifanc sydd eisoes yn byw yno.

ii) Y gymuned
Mae'r cysyniad o'r gymuned yn bwysig iawn. Awgrymwyd na fyddai plant Croesor yn rhan o'r gymuned ym Mhenrhyndeudraeth ag y maent yng Nghroesor.

*ch)* *Effeithiau cyllidebol*

Nododd swyddog bod nifer o bwyntiau cyllidol yn ffactorau. Mae linc rhwng arian cyfalaf ar gyfer adnewyddu a chodi adeiladau a bod angen i'r Cyngor leihau llefydd gweigion ac adeiladau ysgolion mwy. Ychwanegwyd gan y Deilydd Portffolio Ysgolion bod dros 40% o gyllideb y Cyngor yn mynd ar addysg, a bod dyletswydd ar y Cyngor i ystyried sut i gadw cydbwysedd rhwng cynnal ysgolion bach gwledig ac ysgolion mwy o faint mewn ardaloedd trefol sydd wedi'u tangyllido. Nododd ei bod hi'n falch i ddweud bod y Cyngor yn ailgychwyn, ond eto bydd penderfyniadau anodd i ddod, a bod rhaid bod yn deg a thryloyw.

*d.* *Niferoedd disgyblion*

Awgrymwyd mai mater o "lanw a thrai" bu niferoedd disgyblion ysgol Croesor erioed. Cyfeiriwyd at gynllun i gau'r ysgol yn y 1970au pan oedd 4 o blant yn mynychu'r ysgol, a bod niferoedd wedi codi ers hynny.

*dd)* *Perchnogaeth adeilad yr ysgol*

Cwestiynwyd ai eiddo'r Cyngor oedd yr ysgol? Ymrwymodd swyddogion y byddai adran eiddo'r Cyngor yn sicrhau mai dyma'r sefyllfa.

*e.* *Ffin cau'r cyfnod ymgynghori*

Gofynnwyd i ymestyn y cyfnod ymgynghori heibio 08/09/08.
Atebwyd nad 08/09/08 fyddai diwedd yr ymgynghori, ac anogwyd y llywodraethwyr i lythyru erbyn y dyddiad cau.
*(Nodyn: ers y cyfarfod cytunwyd i ymestyn y cyfnod ymgynghori at 15 Medi 2008)*

*f.* *Cyfleusterau*

Nodwyd bod y gymuned a'r ysgol wedi creu cae chwarae eu hunain. Adroddwyd hefyd y byddai dau dy fforddiadwy yn cael eu creu dros y 2-3 mlynedd nesaf. Ategwyd y pryder y gallai cau'r ysgol danseilio hyn.

*ff)* *Ôl-ddefnydd o'r adeilad*
Roedd y gymuned eisoes wedi trafod opsiynau posib. Esboniwyd mai at Bwyllgor Ardal Meirionnydd y byddai'r mater yn mynd.

## 4. Cloi

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod ac anogwyd y corff i gyfarfod ac i gyfrannu sylwadau erbyn y dyddiad cau.

Ymrwymwyd hefyd i ddarparu copïau Saesneg o unrhyw ddogfennaeth.

**ATODIAD C5**

**CYFADRAN DATBLYGU**

**Cyfarfod Statudol gydag Ysgol Croesor**
**Ysgol Croesor**
**7 Gorffennaf 2008 am 19:00**

**CYFARFOD RHIENI**
***Cofnodion***

Pum rhiant oedd yn bresennol.

**1. Croeso**

Ymddiheurwyd nad oedd copïau Saesneg o'r papurau. Ymrwymwyd y byddai'r rhain yn dilyn. Nodwyd y byddai angen i'r Cyngor gyfieithu llythyr derbyniwyd gan gadeirydd y llywodraethwr erbyn paratoi'r papurau ffurfiol i'r Cyngor yn yr hydref.

**2. Cyd-destun**

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion mae cyfarfod ymgynghori statudol i rieni oedd hyn a chroesawyd sylwadau fyddai'n cael eu cofnodi.

**3. Y Papur Ymgynghori**

Cyflwynodd Uwch-Reolwr y Gwasanaeth Ysgolion bapur ymgynghorol oedd yn amlinellu bwriad y Cyngor, manteision ac anfanteision y cynnig, ynghyd ag esboniad o'r broses ymgynghorol o hyn allan.

Amlygwyd rhai pwyntiau penodol gan y swyddog, gan gynnwys:

*a)* *Defnydd o'r safle*
Nodwyd bod llywodraethwyr (yn ystod cyfarfod llywodraethwyr yn gynharach yr un noson) wedi cwestiynu perchnogaeth yr adeilad a'r safle. Ymrwymwyd y byddai'r Cyngor yn gwneud gwaith bellach ar y mater

*b)* *Niferoedd*
Nodwyd mai dyma un o'r prif resymau am weithredu yn achos Croesor - 2 ddisgybl ym medi 08 ond yn gwahodd unrhyw wybodaeth ychwanegol.

**4. Trafodaeth**

*a)* *Perchnogaeth yr ysgol a'r tir.*

Ategwyd ansicrwydd am berchnogaeth yr ysgol a'r tir o'i hamgylch. Gofynnwyd am eglurdeb ar hyn, yn enwedig wrth ystyried ôl-ddefnydd o'r adeilad a'r safle petai'r ysgol yn cau.

Atebodd swyddogion gan nodi mai'r Pwyllgor Ardal leol fyddai'n trafod y mater yn gyntaf o ran ôl-ddefnydd. Ychwanegodd mai'r teimlad gyffredinol oedd y byddai cynghorwyr yn awyddus i ganfod defnydd cymunedol i'r safle ar yr amod bod hynny'n bosib ac yn gynaliadwy i'r dyfodol. Nodwyd fod gan y

Cyngor gyfrifoldeb dros gynnal gormod o adeiladau, ac o'r herwydd byddai angen i gynllun busnes unrhyw fenter fod yn wydn.

*b)* *Ôl-ddefnydd o'r safle*

Ychwanegwyd i'r uchod gan ddweud bod digon o ddefnydd posib. Gofynnwyd am gyfle i roi ystyriaeth ddefnyddio adeilad fel 'creche'. Nodwyd hefyd y gallai'r ysgol gynnal safle ar gyfer y cyfnod sylfaen o fewn ysgol mwy.

Mae'r adeilad mewn cyflwr da iawn.

Cytunwyd y byddai'n amserol i drafod hyn ar ôl 16 Hydref os mai penderfyniad y Cyngor fydd i gau'r ysgol. Nododd swyddogion y byddai'r Cyngor yn awyddus fod cynlluniau pendant ar gyfer Medi 2009 petai penderfyniad i gau.

*c)* *Hanesion plant unigol*

Rhannwyd hanesion plant unigol gan eu rhieni, gan ganolbwyntio ar y cyfraniad yr oedd yr ysgol wedi'i wneud i ddatblygiad y plant hynny.

*ch)* *Effaith y broses ad-drefnu ar niferoedd*
Mynegwyd teimlad fod dechrau'r broses ymgynghori wedi arwain at ostyngiad yn niferoedd disgyblion wrth i rieni symud eu plant o'r ysgol. Derbyniwyd fod hyn yn ffactor.

*d)* *Beth fyddai'r effaith o beidio cau ysgol Croesor ar y prosiect?*
Nodwyd nad oes "prosiect" bellach heblaw'r cynigion i gau ysgolion Croesor a Rhydyclafdy a throsglwyddo'r plant i ysgolion cyfagos. Serch hynny, sefydlwyd gweithgor gan y Cyngor ar 19 o Fehefin i ail-edrych ar drefniadaeth ysgolion.

*dd)* *Cludiant*
Mynegwyd pryder gan rieni am roi plant ifanc ar fws. Atebwyd mai cyfrifoldeb y cyngor yw darparu hawl i gludiant am ddim os ydy plant yn byw dros 1.5 milltir o'r ysgol: mater i'r rhieni yw hi wedyn i ddewis manteisio ar hyn a'i pheidio.

Gofynnwyd am hyblygrwydd yn achos Croesor o ran cludiant oherwydd mai dim ond 2 ysgol sydd ar y rhestr cau ar hyn o bryd.

Mae cost teithio yn rhywbeth bydd angen ei ystyried yn y dyfodol wrth i gost tanwydd gynyddu.

Mae cylchoedd teulu yn cynnal y sefyllfa e.e. nain/aelod teulu yn gyfleus i gasglu plant yn enwedig os ydy'r rhieni yn gweithio.

**5. Cloi**

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod. Cyfeiriwyd at yr amserlen ac y byddai'r Cyngor yn awyddus i dderbyn sylwadau gan yr ysgol ac unrhyw un arall oedd yn dymuno gwneud hynny.

**ATODIAD C6**

**YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD AR Y BWRIAD I GAU YSGOL CROESOR ERBYN 31 AWST 2009**

Derbyniwyd 13 ymateb.

**1.**
**Enw:** Cyngor Cymdeithas Llanfrothen
**Dyddiad:** 06/09/08
**Ffurf:** Llythyr
**Iaith yr ymateb:** Cymraeg
**Ymateb:**

Annwyl Syr,

YMGYNGHORIAD YSGOL CROESOR

Mae'r Cyngor wedi penderfynnu peidio gwrthwynebu cau Ysgol Croesor yn amodol bod rhan o'r cyllid o werthiant yr adeilad yn cael ei glustnodi ar gyfer gwariant ar Ysgol y Garreg.

Eu rhesymau dros beidio gwrthwynebu ei chau oedd nad yw bellach yn economaidd i'w chadw ar agor ac hefyd nad yw rhif bychan y disgyblion yn hyrwyddo datblygiad y plant.

Yn gywir

Ken Williams
Clerc Cyngor Cymdeithas Llanfrothen

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

**2.**
**Enw:** Enfys Huws, Cyn-ddisgybl
**Dyddiad:** 10/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr Ymateb:** Cymraeg
**Ymateb:**

Annwyl Iwan Roberts,

Ar ôl cyrraedd adref i Lanfrothen ar ol bod i ffwrdd yn y brifysgol gefais fraw o ddeallt bod yna berygl mawr i Ysgol Croesor gael ei chau.

Fel cyn-ddisgybl yn Ysgol Croesor 'dw i yn gwrthwynebu'r syniad yn llwyr. Gefais i addysg llawn cystal, os nad yn well na sydd i gael mewn ysgol fwy. Dw i'n teimlo'n gryf bod y perthynas, nid yn unig rhwng y plant a'r athrawon, a chyd-rhwng y plant ond hefyd efo'r gymuned leol wedi magu hyder a theimlad cryf o berthyn i gymuned agos rhwng pawb. Wrth gau yr ysgol mi fyddai hyn oll yn cael ei golli am byth - byddai hyn yn gwneud niwed amhosibl i'w wyrdroi i bawb yn yr ardal. Mae'r ysgol yn focws i gymuned Croesor, sydd angen ei gryfhau yn hytrach na'i wanhau. Pe byddwn i yn riant mi fyddwn i yn teimlo'n ffodus iawn o gael hyd i gem fel Ysgol Croesor, i roi addysg, diogelwch a theimlad cartrefol mewn cymuned agos i 'mhlant.

Dwi yn siarad ar ran fy'n chwaer Ceirios Huws sydd allan o gysylltiad yn Seland Newydd, ond

sydd wedi gofyn i mi fynegi ei gwrthwynebiad hitha hefyd.

Yr eiddoch yn gywir,

Enfys Huws

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

**3.**
**Enw:** Ceirios Huws, Cyn-ddisgybl
**Dyddiad:** 11/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr ymateb:** Cymraeg
**Ymateb:**

Annwyl Iwan Roberts,

Mi 'dw i'n sgwennu atoch i wrthwynebu'r bosibilrwydd y caiff Ysgol Croesor ei chau yn fuan. Fel cyn ddisgybl yn yr ysgol, a rhywun sydd wedi byw yn yr ardal trwy'n ieuenctid mi ydwi'n teimlo'n gryf iawn y dylai hi aros ar agor i'r plant sydd eisio ei defnyddio. Mae'r ysgol yn cynnig llawer mwy nag addysg da i'r plant sy'n cael ei gwersi yno; mae hi'n ganolbwynt i blant, teuleuoedd a phobol yr ardal, a mae hi hefydyn ganolbwynt i'r gymuned.

Mi 'dw i yn teimlo'n freintus o fod wedi bod yn ddisgybl yn Ysgol Croesor, er ai bod hi'n ysgol fach, mi ges i addysg llawn cystal yno ag unrhyw beth y gallwn i gael yn unman arall. Mi oedd hi'n gyfle gwych i ddod i 'nabod y plant, yr athrawon, a'r rhieni yn dda iawn, a fellu, fel y dywedais i yn gynharach yn magu teimlad o gymuned y pentre a'r ardal. Os cauith yr ysgol, ni fydd unrhyw ffordd o ddatblygu cysylltiada agos fel hyn ynman arall.

Mi ydw i hefyd yn teimlo'n gryf y dyla addysg fod ar gael yn lleol. Wedi gorfod trafeilio o Llanfrothen i Harlech i fynd i'r ygol uwchradd, mi 'dw i'n cydymdeimlo efo unrhywun sydd yb gorfod trafeilio i gael ei addysg.

I orffen, mi hoffwn bwysleisio faint o gamgymeriad fysa hi i gau Ysgol Croesor. Mae hi yn ysgol wych, yn bwysig i'r plant sydd yn cael eu dysgu yno, ag i'r gymuned o'i chwmpas, cymuned na fysa'n bod hebddi.

Yn eiddoch yn gywir,

Ceirios Huws

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

**4.**
**Enw:** Dr Peter Marshall, Rhiant
**Dyddiad:** 11/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr ymateb:** Saesneg
**Ymateb:**

Annwyl Mr Iwan Roberts,

Clywais gan gyfaill i’r teulu bod Ysgol Croesor o dan fygythiad o gau. Bûm yn byw yn Garth-y-foel ger Croesor am 16 mlynedd o 1980 a mynychodd fy nau blentyn, Emily a Dylan, yr ysgol. Daethant i siarad Cymraeg yn drwyadl, diolch i’r ysgol.

Roedd yr addysg gynradd a dderbyniwyd ganddynt gan Mrs Morgan a Mr Robinson yn rhagorol gan eu paratoi'n dda am y dyfodol. Mynychodd y ddau y brifysgol cyn mynd yn athrawon. Roeddent yn mwynhau mynychu'r ysgol, oedd yn parchu gwahaniaethau rhwng unigolion, yn dod a'r gorau allan ym mhob plentyn, ac yn galluogi pob plentyn ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi sut roedd hyn wedi ei wreiddio yn amgylchfyd, hanes a diwylliant Cwm Croesor.

Roedd Ysgol Croesor nid yn unig yn ysgol dda, ond mae'n rhan hanfodol o'r gymuned. Ar wahanol adegau o'r flwyddyn, deuai a holl aelodau'r gymuned at ei gilydd a bob dydd byddai rhieni o wahanol gefndiroedd yn cymdeithasu ger ei lidiart. Roedd yn ganolfan fyw a bywiog i fywyd y dyffryn.

Felly, rwyf yn erfyn yn gryf ar Awdurdod Addysg Gwynedd ac Adran Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ail-ystyried a chadw Ysgol Croesor ar agor. Gall bod nifer y disgyblion yn isel ar hyn o bryd ond yn y tymor hir, gydag adferiad parhaus cefn gwlad yng Nghymru, bydd teuluoedd newydd gyda phlant ifanc yn symud i fyw i'r ardal. Ar y llaw arall, os bydd yr ysgol yn cau, bydd traddodiad maith a gwych yn dod i ben a bydd yn ergyd arall i hen ddiwylliant unigryw y rhan brydferth hon o'r byd.

Yr eiddoch yn gywir,

Peter Marshall (Dr)

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

**5.**

**Enw:** Menna Angharad, Rhiant
**Dyddiad:** 11/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr ymateb:** Cymraeg
**Ymateb:**

Annwyl Iwan Roberts,

Ysgrifennaf i fynegu fy ngwrthwynebiad ynglyn a chau Ysgol Croesor.
Mae hon yn ysgol wych ac unigryw; mae trigolion yr ardal wedi bod yn ffodus iawn o gael cystal addysg i'w plant mewn awyrgylch cartrefol, clyd a hapus yn eu cymuned, ac mi fyddai'n drychineb petai hyn yn dod i ben.

Mi 'roedd yn fraint i fy nwy ferch cael eu holl addysg cynradd yn Ysgol Croesor.

Yn gywir,
Menna Angharad

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

**6.**

**Enw:** Dr Emily Zobel Marshall, Cyn-ddisgybl
**Dyddiad:** 12/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr ymateb:** Saesneg
**Ymateb:**

Annwyl Iwan,

Roeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Croesor a chafodd erthygl am fy mhrofiadau yno ei chyhoeddi yn y cylchgrawn Cymraeg *Barn*. Roeddwn yn drist iawn o glywed bod yr ysgol mewn perygl o gau'n fuan a phenderfynais anfon yr erthygl atoch. Cafodd ei chyfieithu i'r Gymraeg - Rwyf wedi atodi'r fersiwn Saesneg ( Cyf: Marshall, E. Z. (2006) 'Byd o Addysg.' Barn, pp. 18-19). Gallaf lun-gopïo'r erthygl (fersiwn Gymraeg) a'i hanfon atoch pe baech ei hangen.

Cofion gorau,

Emily Zobel Marshall (Dr.)

***29/09/06***

***Ysgol Croesor.*** ***Emily Zobel Marshall***

*Gofynnwyd i mi ysgrifennu am fy atgofion o Ysgol Croesor bedwar diwrnod yn ôl; ers hynny nid wyf wedi meddwl am unrhyw beth arall. Bûm yn hel atgofion yn barhaus, gan ddiflasu pawb gyda storïau am Ysgol Croesor, yn breuddwydio am Ysgol Croesor. Mae gennyf gymaint o atgofion melys a fy ngobaith wrth ysgrifennu, yw gallu crynhoi fy mhrofiadau mewn mil o eiriau.*

*Mae fy mam yn hannu o Ynys Martinique yn y Caribi ble siaredir Ffrangeg, a daw fy nhad o Bognor Regis. Gan ddilyn y freuddwyd o ffordd o fyw gymunedol wahanol, hunan-ddigonol, sefydlwyd cymuned o ddau ar bymtheg o oedolion a dau ar bymtheg o blant, ganddynt, ar ddwy acer ar bymtheg o dir, yn Swydd Buckingham ar ddiwedd y 70'au. O ganfod bod eu ffordd o fyw yn fwy cymhleth nag oeddent wedi ei ragweld, pan oeddwn bron yn deirmlwydd oed, symudasom i fyw i Eryri yng Ngogledd Cymru. Roedd fy nhad wedi syrthio mewn cariad â thŷ ble nad oedd neb yn byw yno ac a oedd yn ynysig iawn, Garth-y-Foel, ger pentref bychan Croesor. Wedi ei amgylchynu gan fynyddoedd y Cnicht a'r Molwyniaid a chyda golygfa i lawr at y môr roedd yn lleoliad rhamantus, oedd yn gwneud iawn am y diffyg llwybr yn arwain at y tŷ. Yn fuan ar ôl symud i Garth-y-Foel, dechreuodd fy rhieni ddysgu Cymraeg, gan yn raddol ddod yn fwy trwyadl yn yr iaith dros y blynyddoedd canlynol.*

*Dechreuais yn Ysgol Croesor pan oeddwn yn bedair oed.. Roedd 16 o blant yn yr ysgol ar yr adeg honno, chwech yn y dosbarth 'bychan' a deg yn y dosbarth 'mawr', o gefndiroedd ble siaredid y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd Mrs Morgan, y pennaeth, yn ddynes ddeallus iawn yn ei 60'au, a fu'n dysgu yn yr ysgol ers sawl degawd.*

*Roedd yr Ysgol yn adeilad carreg gyda ffenestri mawr ac yn y tu mewn ceid ystafell cynllun agored helaeth gyda drysau partisiwn yn llithro oedd ar adegau yn gwahanu'r ddwy ystafell ddosbarth. Roedd yr ysgol wedi ei lleoli yng nghanol y pentref, ar lannau Afon Croesor. Gerllaw, roedd y pentrefwyr wedi gosod argau ar ran o'r afon i greu pwll nofio naturiol ar gyfer plant yr ysgol, a phob haf, treuliasom oriau yn troi'n las yn araf wrth chwarae yn y dyfroedd rhewllyd.*

*Cawsom ein dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ond cai siarad Cymraeg ei annog yn y dosbarth ac yn ystod amser chwarae. Ysbrydolodd Mrs Morgan gariad ynom tuag at Gymru, darllen chwedlau o'r Mabinogion a gosod gwaith cwrs manwl ar ein cyfer ar hanes, barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg o oedran cynnar. Dysgodd ni hefyd werthfawrogi prydferthwch ein hamgylchfyd a'r byd naturiol. Ar ddyddiau heulog, dysgwyd gwersi tu allan, dringwyd y Cnicht a mynyddoedd y Molewyn ar deithiau noddedig, a threuliwyd prynhawniau cyfan yn dilyn llwybrau natur o amgylch y Cwm yn enwi cartrefi, traciau a thom anifeiliaid ac adar. Ni adawodd unrhyw blentyn Ysgol Croesor heb feddu ar lawer o wybodaeth ynghylch bywyd planhigion ac anifeiliaid.*

*Roedd fy nhaith gerdded ddwy filltir i'r ysgol yn hudolus; trwy 'Goedwig Bwtsias y Gog', a 'dinas moch daear,' dros furiau cerrig sych wedi eu gorchuddio â mwsogl acc o dan dwnelau o redyn un goes gwyrdd, gan orffen gan gerdded drwy'r d^w^r ar draws afon yn llifo'n gyflym. Roedd bron bob un o'r disgyblion yn byw o fewn pellter cerdded o'r ysgol gan gerdded yno, ac roedd pob un o'u teithiau yn antur.*

*Roedd Ysgol Croesor yn galon cymuned Croesor. Manteisiai Mrs Morgan ar arbenigedd pobl leol a fyddai'n mynd a ni i gael gwersi, gan lenwi'r bylchau yn ei gwybodaeth am bynciau arbennig. Ai Lucy Rees, gyda doethuriaeth mewn bywydeg, a ni am wersi bywydeg, a gai eu treulio yn aml yn cerdded trwy'r afon yn dal pysgod mewn rhwydi ac yn troi cerrig mawr drosodd i adnabod gwahanol rywogaethau o fywyd môr. Dysgodd fy mam Ffrangeg inni a chyda saer lleol, adeiladwyd canŵ Navaho Indian o faint llawn. Treuliodd y cerflunydd Michael Watts sawl wythnos gyda ni a gyda'n gilydd cerfiwyd hanes Croesor, gyda chynion a morthwylion, ar sawl slab llechen mawr sydd heddiw'n sefyll yng nghanol y pentref, fel ffurf bychan ar Côr y Cewri. Ar ddiwrnod oer iawn yn y gaeaf, lluniwyd iglŵ gennym o amgylch ffrâm dringo'r ysgol oedd yn ddigon mawr i letya'r holl ddosbarth 'mawr'. Buasai'r rheolau iechyd a diogelwch caeth a osodir mewn ysgolion y dyddiau hyn wedi golygu na fyddai modd cynnal y prosiectau hyn, y bu inni sicrhau ystod anhygoel o sgiliau trwyddynt.*

*Roedd fy nghyd ddisgyblion yn Ysgol Croesor fel teulu estynedig i mi. Byddai brodyr a chwiorydd oedd yn dal yn rhy ifanc i fynychu yn dod i'r ysgol ac yn cael tynnu eu lluniau a*

*gwneud y nifer i fyny. Roeddent mor gyfarwydd â'r ysgol, ei staff a'i disgyblion, na allent aros am y diwrnod y gallent ymuno a ni, ac ar y diwrnod hwnnw gallent gerdded trwy giat yr ysgol gan deimlo'n gartrefol a hyderus.*

*Gan bod cyn lleied ohonom yn y dosbarth, gallai Mrs Morgan, athrawon y dosbarthiadau babanod, ac yn ddiweddarach y pennaeth gwych, Mr Robinson, roi llawer iawn o sylw ac anogaeth unigol. Roedd ganddynt amser i gynnig cefnogaeth un i un a deall ein cryfderau a'n gwendidau. Caem ein canmol am ein doniau a gwnaed inni deimlo'n arbennig ac unigryw. Anfonwyd ein cerddi, storïau a pheintiadau at gyhoeddwyr a chystadleathau cenedlaethol, y buom yn unigol mewn amryw ohonynt. Treuliodd yr ysgol gyfan sawl mis yn gweithio ar gynllun ar gyfer cystadleuaeth genedlaethol yn dogfennu bywyd derwen; roeddem yn fuddugol gan ennill cannoedd o bunnau i'r ysgol.*

*Fodd bynnag, ceir anfanteision o gael hyblygrwydd yn ein haddysg a dim ond dau athro. Er i'r ysgol ddefnyddio doniau ac arbenigedd y gymuned leol, roedd yn anorfod ein bod yn rhannu gwendidau ein hathrawon mewn rhai pynciau. Ni bu mathemateg na sillafu erioed yn un o gryfderau disgyblion Ysgol Croesor ac mae rhai ohonom wedi cael trafferth gyda'r meysydd hyn yn yr ysgol uwchradd.*

*Bu mynychu'r Ysgol uwchradd yn sioc enfawr. Roedd cael ein tynnu o amgylchfyd teuluol Ysgol Croesor i ysgol o bum cant o blant yn ddryslyd ac roedd yn ein gorlethu. Yn sydyn, roeddech yn ddibwys ac yn waeth byth, roedd plant Ysgol Croesor yn tueddu i sefyll allan mewn torf. Ceid rhesymau niferus pam nad oeddem yn ffitio i mewn. Fel plant o'r wlad, roeddem wedi treulio'r rhan fwyaf o'n plentyndod yn gwisgo anoracs ac esgidiau glaw; nid oedd gennym synnwr ac arddull o ran dilyn y ffasiwn. Roeddem wedi tyfu i fyny wedi ein hamgylchynu gan goedwigoedd a chaeau heb wybod fawr am ddynameg bywyd trefol rhai yn eu harddegau; roedd loetran o amgylch arhosfan bws neu siop Spar, ysmygu sigarennau a chusanu yn bur ddieithr inni. Eto er bod rhai ohonom yn cael ein pryfocio, roeddem yn dal yn ddi-flewyn-ar-dafod ac heb fod gywilydd o'n gwahaniaethau. Beth bynnag, ar ôl yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn yr ysgol uwchradd, mae disgyblion ysgol uwchradd yn diflasu gyda'r ddelwedd plantos 'cwl' a daw bod ychydig yn wahanol yn fantais.*

*Erbyn heddiw, mae gan Ysgol Croesor fwy o ddisgyblion ac mae ganddi enw da. Yn anffodus, mae'n dal i frwydro yn erbyn cael ei chau. Cofiaf y bu sôn am gau yn ystod fy nghyfnod yn yr ysgol gynradd. Roedd yn ymddangos yn fygythiad amhosibl a phellennig na allwn ei amgyffred yn llawn.*

*Ni cheir siopau na neuadd y dref ym mhentref Croesor; pe bai Ysgol Croesor yn cau, byddai'n chwalu cymuned fechan a brau. Gobeithiaf rhyw ddydd cael y cyfle i anfon fy*

*mhlant fy hun i ysgol fechan. Mae disgyblion sy'n ddigon ffortunus i fynychu ysgolion megis Ysgol Croesor yn cael y sylw a'r anogaeth maent ei angen i dyfu gyda balchder a hyder.*

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**7.**
**Enw:** Melangell Dolma, Cyn-ddisgybl
**Dyddiad:** 14/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr ymateb:** Cymraeg
**Ymateb:**

Annwyl Iwan Roberts,

Rydw i'n ysgrifennu atoch fel cyn-ddisgybl yn Ysgol Croesor er mwyn mynegi fy nheimladau ynglyn a'r bwriad i gau'r ysgol. Rydw i ar hyn o bryd yn fy ail flwyddyn yng ngoleg Pwllheli yn astudio pyncaiu Lefel A.

Rydw i'n cofio fy amser i yn yr ysgol fel cyfnod o fwynhad a pleser mawr lle cefais fwynhau derbyn addysg o'r safon uchaf mewn awyrgylch gyfeillgar a Chymreigaidd, lle y dois i hyd i'r mwyafrif o'm ffrindiau agosaf a lle y dysgais i sut i gyfathrebu hefo, i werthfawrogi, ac i barchu eraill o'm cwmpas.

Un peth yn arbennig a wnaeth fy mhrofiad i yn Ysgol Croesor mor werthfawr i mi oedd y sioeau blynyddol y byddwn fel ysgol yn eu cynhyrchu pob Nadolig lle cefais i flas ar actio o fy mlwyddyn cyntaf yno yn bedair oed. O'r fan honno yr ydw i wedi datblygu cymaint o angerdd tuag at actio a perfformio ac roedd y profiad cynnar yma yn sicr wedi planu'r hadun ynnof o fod eisiau dal ymlaen yn y byd drama. Yn ogystal a hyn, roeddwn ni fel disgyblion yn cael bod yn rhan o'r holl broses o greu'r sioe, o'r cychwyn hel syniadau a dechrau ysgrifennu'r sgript hyd at greu'r set a peintio'r cefnlen a oedd yn un o'r pethau yr oeddwn n ii gyd yn ei edrych ymlaen ato'n fawr. Roedd y sioeau blynyddol yma hefyd yn denu cynulleidfa eang a oedd yn ffordd wych o ddod a'r gymuned cyfan at ei gilydd i fwynhau ac roedd digwyddiadau yn yr ysgol wastad yn ganolbwynt bendigedig i'r pentref cyfan.

Rydw i'n sicr fod yr addysg cynar a gefais yn Ysgol Croesor wedi rhoi sylfaen cadarn iawn i mi ar gyfer weddill fy mywyd ac wedi fy anelu i'r cyfeiriad cywir o'r cychwyn cyntaf. Credaf y byddai'n golled mawr i'r cymuned gyfan petai'r ysgol yn cau a gwyddaf y bydd yn cael argraff newidiol iawn ar fywyd o fewn y pentref bychan. Mae'r profiad a gefais i o fod yn ddisgybl yn Ysgol Croesor yn un na fuaswn i byth yn ei gyfnewid ac yn un y gobeithiwn y ceir plant lleol yr ardal barhau i'w fwynhau am flynyddoedd i ddod.

Yr eiddoch yn gywir,

Melangell Dolma

------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**8.**
**Enw:** Seran Dolma, Cyn-ddisgybl
**Dyddiad:** 14/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr ymateb:** Cymraeg

**Ymateb:**

Annwyl Mr Roberts,

Rwy'n ysgrifennu atoch fel cyn-ddisgybl o ysgol Croesor, i ofyn i chi wneud beth allwch chi i atal yr ysgol fach arbennig hon rhag orfod cau ei drysau i blant yr ardal.

Mae ysgol Croesor yn ysgol fach, gynaladwy gyda hanes o gynnig addysg ardderchog a chreadigol. Mae'n ganolbwynt i'r pentref ac yn achos cryn falchder yn yr ardal, ac fe fyddai ei chau yn golled drist i'r gymdeithas glos sydd yn bodoli yn yr ardal.

Diolch o galon,

Seran Dolma.

**---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------**

**9(a).**

**Enw:** Siân Cwper, Rhiant
**Dyddiad:** 15/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr ymateb:** Cymraeg
**Ymateb:**

Annwyl Iwan Roberts,
Er fy mod i wedi gwrwynebu cau'r ysgol fel llywodraethwr, 'dw i'n meddwl fy mod i wedi anghofio roi gwrthwynebiad personol i mewn.

Mae fy nwy ferch wedi bod yn ddisgyblion yn Ysgol Croesor, ac wedi cael llawer iawn o fydd o'r profiad. Mae nhw wedi bod yn llwyddianus iawn yn academaidd. Mae'r hynaf wedi enill gradd dosbarth gyntaf ac MSc gydag anrhydedd, ar ifengaf wedi cael A neu A* ym mhob pwnc TGAU, ac A am ei phedwar pwnc AS eleni. Mi fuodd yn brif disgybl yn Ysgol Ardudwy.

'Dw i'n credu pe gwnaech astudiaeth o gyrrhaeddiadau cyn-ddisgyblion Ysgol Croesor , fe ganfyddech eu bod uwchlaw cyfartaledd y wlad yn sylweddol. A dyna ydi prif pwrpas ysgol. Yn ogystal, mae nhw'n bobl hyderus, cyfrifol, agos at eu gilydd a'u cymuned. Pa well sydd eisiau?

Maddeuwch i mi os y dywedais y rhan fwyaf o hyn wrthych chi eisoes.

Yr eiddoch yn gywir,
Siân Cwper.

---------------------------------------------------------------------------------------------------------

**9(b).**

**Enw:** Siân Cwper, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Croesor
**Dyddiad:** 07/07/08
**Ffurf:** Llythyr
**Iaith yr ymateb:** Cymraeg
**SYLW:** Derbynniwyd y llythyr isod drwy law yr ysgol yng ngyfarfod ymgynghori statudol gyda Llywodraethwyr Ysgol Croesor ar 07/07/08.
**Ymateb:**

Annwyl bawb,

Ymddiheuraf am na allaf fod yn bresennol yn y cyfarfod holl bwysig yma sydd yn ymwneud a dyfodol Ysgol Croesor, ond mae gwasanaeth coffa wedi ei drefnu heddiw er cof am fy mam ers rhai misoedd.
Ers mis Medi diwethaf gadawodd 11 o ddisgyblion Ysgol Croesor i fynd i ysgolion cynradd eraill. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod Cyngor Gwynedd wedi creu ansicrwydd a phryder mawr ym meddyliau'r rhieni a'u plant, wrth son yn gyson am y posibilrwydd o gau'r ysgol.
Un yn unig o'r 11 yma sydd wedi mynd i Ysgol y Garreg gyfagos, oherwydd yr ansicrwydd a greuwyd am ddyfodol yr ysgol honno hefyd.
Yn fy marn i fel cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Croesor, mae'r ysgol mewn safle delfrydol ar gyfer Cyfnod Sylfaen.
Mae'r adeilad mewn cyflwr da, mae yma do newydd, lloriau, estyniad, yn cynnwys swyddfa braf, storfa a chyntedd. Mae toiledau newydd yn yr ysgol, un ohonynt ar gyfer yr anabl. Mae'r fynedfa hefyd wedi ei haddasu ar gyfer yr anabl. Mae yma gae chwarae ardderchog. Yn ddiweddar mae Canolfan Bryn Gelynnen wedi ei hagor, ac mae yno neuadd ar gael at ddefnydd plant yr ysgol. Mae'r ysgol yn gyfoethog o adnoddau, ac mae'r staff presennol yn ofalus iawn o'r ysgol a'i hethos.
Mae Capel Croesor yn parhau ar agor, a'r plant yn cynnal gwasanaethau yno ar gyfer y cyhoedd.
Ganwyd llawer o blant yma yn ddiweddar, ac mae'r rhieni yn awyddus i fedru cerdded hefo nhw i'r ysgol, ac iddynt gael mynychu ysgol y pentref a bod yn rhan o gymuned.
Fel y dywedodd ein diweddar gadeirydd Merfyn Williams - mae'n bwysig cadw'r ysgol ar agor, mae'n galon y pentref ac mae'n braf clywed sŵn y plant yn chwarae yn yr iard.
Os caeir yr ysgol, dyma ei diwedd. Ni fydd ail agoriad. (Ni cheir ychwaith gludo plant o dan 5 oed mewn bws ysgol na thacsi).
Ond os y'i cedwir yn agored mae gobaith cryf y ffynnith hi eto fel canolbwynt llawen i'r pentref a'r gymuned leol, fel y bu cyn yr ymosodiad creulon a dianghenraid yma.

Yr eiddoch yn gywir,

Siân Cwper

**9(c).**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Siân Cwper, Corff Llywodraethol Ysgol Croesor |
| **Dyddiad:** | 16/07/08 |
| **Ffurf:** | E-Bost |
| **Iaith yr ymateb:** | Cymraeg |
| **Ymateb:** | |

Yn ein Cyfarfod Llywodraethwyr, a gynhaliwyd heddiw, fe basiwyd y cynnig canlynol yn unfrydol;

'Tydan ni, fel llywodraethwyr, ddim yn credu y dylid penderfynnu ar ddyfodol ysgol croesor mewn gwagle, ond yn hytrach ar y cyd efo Ysgol y Garreg, a felly, yn hytrach na chau'r ysgol yn Awst 2009, dylai ddyfodol yr ysgol fod yn rhan o adolygiad cyfredol o holl ysgolion y sir.

Y mae'r 4 llywodraethwr a oedd yn methu bod yn bresennol yn cytuno efo'r cynnig hefyd.

Yr eiddoch yn gywir, Siân Cwper, Cadeirydd.

**9(ch).**

**Enw:** Siân Cwper, Corff Llywodraethol Ysgol Croesor
**Dyddiad:** 11/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr ymateb:** Cymraeg
**SYLW:** Mae'r ymateb yma yn cyfeirio at ymateb Cymdeithas yr Iaith (rhif 13 isod)
**Ymateb:**

Annwyl Iwan Roberts, Dim ond gair i ddweud bod ni'r llywodraethwyr yn cytuno efo'r hyn mae Ffred Ffransis yn ei ddweud. Yn gywir, Siân Cwper (cadeirydd).

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

**10.**

**Enw:** Ffred Ffransis, Cymdeithas yr Iaith
**Dyddiad:** 03/09/08
**Ffurf:** E-Bost
**Iaith yr ymateb:** Cymraeg
**Ymateb:**

Annwyl Gyfeillion

A fyddai modd i chwi gyfleu'r canlynol i'r Swyddogion Addysg perthnasol fel gwrthwynebiad ffurfiol Cymdeithas yr Iaith i'r bwriad i gau Ysgol Croesor. Deallwn fod y cyfnod ymgynghori statudol yn dod i ben ddiwedd yr wythnos hon, a hoffem ddatgan ein cefnogaeth i benderfyniad llywodraethwyr yr ysgol y dylid ystyried dyfodol yr ysgol ar yr un pryd ag yr ystyrir dyfodol yr ysgolion cyfagos y mae Croesor yn cydweithio gyda nhw. Dyma sylfaen ein gwrthwynebiad -

**1. PROSES YMGYNGHORI GWBL DDIFFYGIOL**

1(1) Camgymeriad mawr oedd i'r Cyngor ruthro i ymgynghori am ddyfodol Ysgol Croesor yn ystod tair wythnos olaf y tymor ac yn ystod gwyliau'r haf. Bernir tegwch holl raglen y Cyngor yn ol pa mor deg y mae'r camau cyntaf. Gellid dadlau mai teg oedd symud ymlaen gyda chytundeb yn achos Rhydyclafdy, ond gwahanol yw'r sefyllfa yng Nghroesor. Derbyniwn fod perffaith hawl rhesymol gan y Cyngor ystyried dyfodol Ysgol Croesor o ystyried nifer isel y disgyblion ond - o fynnu symud ymlaen ar fyrs i'w hystyried ar ei phen ei hunan, gallesid gwneud hynny yn ystod tymor yr hydref wedi paratoi trylwyr ac wedi rhoi cyfle teg i rieni a llywodraethwyr.

1(2) Arwydd clir o'r rhuthr anheg a diffyg paratoi oedd na ellid trefnu'r cyfarfod ymgynghori ffurfiol ar adeg pryd y gallai cadeirydd y llywodraethwyr fod yn bresennol. Cymerwyd y penderfyniad yng nghyfarfod y Cyngor ar Fehefin 19eg i gychwyn proses ymgynghori fis cyn diwedd y tymor. Ni chredwn fod y Cyngor wedi llawn werthfawrogi fod gwahaniaeth sylfaenol rhwng y lefel o baratoadau angenrheidiol ar gyfer cyfarfod cyhoeddus anffurfiol ar y naill law ( y mae'r Cyngor wedi cynnal dwsinau ohonynt ) a chyfarfod ymgynghori statudol ar y llaw arall. Yn yr achos hwn, mae rheidrwydd statudol ar y Cyngor i baratoi papurau trwyadl ac i roi cyfle i bawb ymateb. Mae mynd ymlaen i drefnu'r unig gyfarfod ymgynghori statudol yn absenoldeb cadeirydd y llywodraethwyr - oherwydd diffyg amser i wneud trefniadau iawn - fwy neu lai yn annilysu'r broses ohoni'i hunan.

1(3) Mae'n wir fod y cadeirydd wedi cael gwybod am y cyfarfod, ac wedi esbonio fod

ymrwymiad teuluol pwysig yn atal ei phresenoldeb, ac fe ddarllenwyd llythyr gan y cadeirydd yn y cyfarfod. Ond nid oedd hyd yn oed cadeirydd y llywodraethwyr wedi derbyn ymlaen llaw gopi o ddogfen ymgynghorol y Cyngor am ddyfodol yr ysgol, ac felly nid oedd modd nag ymdrin a'r materion a godwyd ymlaen llaw yn ei llythyr na chwaith croesholi swyddogion am y pwyntiau yn y cyfarfod.

1(4) Disgwylwyd i rieni a'r gymuned leol anfon i mewn ymatebion wedyn - ond hynny yn ystod gwyliau'r haf !

1(5) Ni bu unrhyw ymdrech i geisio ymatebion ehangach e.e. mae Cymdeithas yr Iaith wedi mynegi'n ddigon clir ei diddordeb yn y strategaeth sirol ac hefyd yn nhynged yr ysgol arbennig hon trwy gynnal cyfarfod cyhoeddus oddi fewn i'r ysgol eleni, ond ni ddaeth unrhyw ddogfen na gwahaoddiad i'r Gymdeithas ymateb.

1(6) Ni bu unrhyw ymdrech i wahodd ymatebion cyffredinol gan y cyhoedd chwaith, ac mae hyn yn rhyfeddol o ystyried gymaint y diddordeb cyhoeddus yn y strategaeth ac o ystyried mai dyma'r prawf lleol cyntaf o ran newidiadau. Yr wyf heno (nos Fercher 3ydd Medi) wedi astudio gwefan y Cyngor i geisio copi o'r ddogfen a gwybodaeth am y broses ymgynghorol statudol hon. Troes at adran "Addysg a Dysgu">Ysgolion>Ad-drefnu Ysgolion>Ymgynghori ac eto yr adran "diweddaraf" a'r esboniad ar y "Broses Ddemocrataidd" ac "Ymgynghori 2008". Dywedir fod un adran wedi'i diweddaru ar 29/5/08 ac mai'r bwriad yw i'r Pwyllgor Craffu drafod y mater ar y 5ed Mehefin (!) a'r adran a ddiweddarwyd ar 05/06/08 yn dweud y bydd y Cyngor llawn yn trafod y mater ar 19 Mehefin! Mae'r adran ddiweddaraf ar "Ymgynghori" wedi'i diweddaru ar 31/03/08 a'r Adran ar "Y Broses Ddemocrataidd" yn gorffen gydag adroddiad am y Pwyllgor Craffu Addysg ar 5ed Mehefin. O ddefnyddio peiriant chwilio mewnol y Cyngor i chwilio am "Ysgol Croesor" ceir yn unig gyfeiriad at yr un bapur cyffredinol ar Ad-drefnu a ddaeth i ben ar y 5ed Mehefin. Nid yn unig nad yw'r Cyngor wedi ceisio ymatebion cyhoeddus ar gyfer eu cynllun ar gyfer Ysgol Croesor, ond ni allaf gael hyd i unrhyw gyfeiriad at y ffaith fod cyfnod ymgynghori statudol ymlaen na chopi o'r ddogfen sy'n sail i'r broses honno. Mae'n bosibl iawn y dywedir ei bod yn anodd i swyddogion ddiweddaru gwybodaeth gyhoeddus yn ystod gwyliau'r haf. Os felly, PAM Y TYBIWYD EI BOD YN DDERBYNIOL DDISGWYL I RIENI, LLYWODRAETHWYR A'R CYHOEDD GYMRYD RHAN YN Y BROSES YN YSTOD GWYLIAU'R HAF ? Ni bu modd hyd yn oed i Gymdeithas yr Iaith gysylltu a'r ysgol yn ystod y gwyliau haf i drafod datblygiadau.

**2. NID YSTYRIWYD YN DRWYADL DDULLIAU ERAILL HEBLAW AM GAU'R YSGOL**

2(1) Mae'r Cyngor wedi cyflwyno achos cul dros gau'r ysgol - yn seiliedig ar y sefyllfa fel y mae yn hytrach na fel y gallai fod. Nid oes unrhyw ymdriniaeth ystyrlon ag atebion heblaw am gau'r ysgol.

2(2) Mae'n wir fod niferoedd wedi disgyn yn arw, ond mae hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd yr ansicrwydd i'w dyfodol. Bu'r bygythiad cyntaf i gau'r ysgol yn y pumdegau. Tra bo ysgolion eraill yn dathlu canmlwyddiant, mae Croesor yn gallu dathlu dros hanner can mlwyddiant y frwydr i'w hachub ! Dros y blynyddoedd, mae'r niferoedd wedi codi a disgyn - yn aml iawn mewn ymateb i arwyddion cyhoeddus a roddir am ddyfodol yr ysgol e.e. bu cynnydd yn yr 80au wedi ennill brwydr i gadw ysgol. Ni ddylsai'r Cyngor ddi-ystyru'r un posibiliad eto.

2(3) Mae'r ysgol wedi bod yn cydweithio a rhannu prifathrawiaeth gydag Ysgol Y Garreg, Llanfrothen. Yn wir, bu dogfen ymgynghorol y Cyngor Tachwed 2007 yn gweld Croesor, Llanfrothen a Phenrhyn yn gylch addysgol ac y dylid ystyried atebion ar gyfer y cylch cyfan.

2(4) Fel enghraifft, cynigiwn y bosibiliad o ffedereiddio y dair ysgol (ar batrwm Ysgol Carreg Hirfaen) gyda phlant C.A.1 Llanfrothen a Chroesor yn cael eu haddysg ar un safle, a disgyblion C.A.2 ar y safle arall gydag un safle yn agor ac yn cau 10 munud cyn y llall fel y gallai rhieni ollwng a chodi plant o'r 2 safle. Ni ddadleuwn o reidrwydd mai dyma'r ateb

gorau yn yr achos hwn - dim ond cynnig enghraifft o'r holl bosibiliadau y dylasid eu hystyried. Ni wnaeth y Cyngor astudiaeth o'r fath ac felly ni ellir ystyried y broses ymgynghori'n ddilys o ran ei chynnwys, yn ogystal ag o ran ei hamserlen.
2(5) Rhaid felly gytuno gyda llywodraethwyr Ysgol Croesor mai'r ateb gorau fydd i'r Cyngor gydnabod na bu'r ymdrech brys hwn at ymgynghori'n llwyddiannus ac y dylai swyddogion gynnig i'r Cyngor llawn fod tynnu'n ol bwriad i gau'r ysgol ac yn hytrach ystyried dyfodol Ysgol Croesor ar yr un adeg ag yr ystyrir dyfodol ysgolion eraill yr ardal. Yn y cyfamser, dylai'r Cyngor hyrwyddo pob cydweithio posibl rhgwbng yr ysgolion er mwyn sicrhau'r profiad addysgol ehangaf i'r disgyblion.

**3. PWYSIGRWYDD YR YSGOL I'R GYMUNED LEOL**
2(1) Ysgol Gymraeg yng nghanol y gymuned yw Ysgol Croesor. Mae pob arwydd gweladwy o'r Gymraeg oddifewn i'r adeilad a phob cyfathrebu Cymraeg yn dangos fel y gallai'r gymuned gyfan fod eto ar gyfer y dyfodol ac yn arwydd o obaith am ddyfodol.
2(2) Mae datblygiadau eraill yn y pentre'n dangos yn glir nad cymuned sydd wedi colli'r ewyllys i fyw yw Croesor. Dylid datblygu'r ysgol er mwyn hybu datblygiad cymunedol ehangach.

Yn gywir

Ffred Ffransis
Cymdeithas yr Iaith